**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health & Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/0280/23

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

20 Chwefror 2023

Annwyl Russell

Diolch am anfon copi ataf o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru.*

Mae ein hymateb i argymhellion y pwyllgor wedi'i amgáu.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw *Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*

Mae ymateb manwl i bob un o'r argymhellion i'w weld isod.

**Argymhelliad 1**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Ni fydd iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth yn gwella, ac mewn gwirionedd gall barhau i ddirywio, oni bai bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i gydnabod a mynd i'r afael ag effaith trawma, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithas ac achosion ehangach iechyd meddwl gwael. Rhaid i'r neges hon, ynghyd ag uchelgais glir i leihau anghydraddoldebau iechyd meddwl, fod yn ganolog i strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 yn strategaeth draws-lywodraethol, amlasiantaeth ac mae'n cynnwys pwyslais penodol ar gynorthwyo grwpiau sy'n agored i niwed a lleihau anghydraddoldebau.

Un o egwyddorion sylfaenol y strategaeth olynol fydd lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

**Argymhelliad 2**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ddelfrydol yn ei hymateb i'n hadroddiad, ond erbyn Gorffennaf 2023 ar yr hwyraf, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arfarniad gonest o ba ysgogiadau polisi, deddfwriaethol ac ariannol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a phenderfynyddion cymdeithasol eraill iechyd meddwl sydd o fewn rheolaeth Lywodraeth Cymru, a pha rai sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU. I gyd-fynd â'r arfarniad hwn, dylid cael asesiad realistig o'r graddau y gall Llywodraeth Cymru wella iechyd meddwl a*

*llesiant y boblogaeth gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith orau wrth wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r strategaeth bresennol yn strategaeth draws-lywodraethol ac mae wedi'i hategu gan grŵp uwch-swyddogion traws-lywodraethol. Bydd ein strategaeth iechyd meddwl yn y dyfodol yn nodi sut rydym yn bwriadu gwella iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth ymhellach.

Bydd unrhyw strategaeth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddeall mesurau sy'n gallu cynorthwyo ein hawydd i sicrhau gwelliant yn Nangosydd Llesiant 29: Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn canolbwyntio ar fesurau ar draws y boblogaeth i wella a chefnogi iechyd meddwl a llesiant, a bydd deall yr ysgogiadau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella hyn yn rhan o'r gwaith.

Fe gydnabyddir yn eang bod yr ysgogiadau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yn gyfyngedig. Er mwyn lleihau lefelau tlodi yn sylweddol, byddai angen i Lywodraeth y DU newid ei dull gweithredu mewn ffordd radical. Nid ydym wedi gorfod ymdopi â digwyddiadau tebyg i'r tair blynedd diwethaf ers datganoli.

Yn unol â'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rydym wedi parhau i flaenoriaethu a buddsoddi'n sylweddol mewn amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni i hyrwyddo ffyniant ac atal a lliniaru tlodi. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau i fod yn fater treiddiol ac mae ein hymdrechion gorau wedi'u llesteirio gan benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Er mai gan Lywodraeth y DU y mae'r prif ysgogiadau ar gyfer trechu tlodi – e.e. pwerau dros y system trethi a budd-daliadau – ein blaenoriaeth o hyd fel Llywodraeth Cymru yw diogelu pobl Cymru a'u helpu drwy'r argyfwng costau byw, wrth ymdrechu i sicrhau Cymru gryfach, decach a gwyrddach. O ystyried effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw, mae camau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar dlodi wedi canolbwyntio ar leddfu effaith uniongyrchol tlodi. Eleni (2022/23) yn unig, rydym yn gwario mwy na £1.6bn ar gynlluniau sy'n targedu'r argyfwng costau byw ac ar raglenni sy'n rhoi arian yn ôl i bobl.

Mae adroddiad 'Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol: Ffordd Ymlaen' gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[1], a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn amlinellu casgliadau adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Llwyth Meddwl ac Iechyd Meddwl – Mynd i'r afael â'r baich emosiynol a seicolegol a ysgwyddir gan bobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy fynd i'r afael â stigma ac (ail)ddynoli'r 'system' a thrin pobl â'r parch a'r urddas y maent yn ei haeddu. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried wrth i ni fwrw ymlaen â'n

[1] *Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen* gan Dan Bristow, Anna Skeels, Manon Roberts ac Isabelle Carter Cyhoeddwyd mis Medi 2022

hymrwymiad i ddull llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb a chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu drwy ystyried tlodi, er mwyn diwallu anghenion presennol a sicrhau newid mwy hirdymor.

Yn ystod 2023, rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yn ogystal â'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw mewn dull dau gam o ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant Cymru ddiwygiedig sydd wedi ei llunio ar y cyd. Mae'n bwysig nodi bod y gwaith hwn yn cynnwys gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda phobl sydd â nodweddion gwarchodedig a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

**Argymhelliad 3**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Erbyn mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o’r dystiolaeth bresennol, ac ymchwil bellach pe bai ei hangen, i archwilio effaith system les y DU ar iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, a pha effaith y gallai datganoli lles a/neu’r gwaith o weinyddu lles ei chael ar fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd corfforol a meddyliol yng Nghymru. Dylai’r adolygiad a’r ymchwil ystyried materion yn ymwneud ag egwyddor, yn ogystal ag ymarferoldeb a goblygiadau ariannol cysylltiedig cadw’r sefyllfa bresennol neu unrhyw ddatganoli pellach. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad a’r ymchwil.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw ymchwilio i'r ffordd y mae ymwneud â system nawdd cymdeithasol y DU yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant. Ers 2013, mae astudiaethau amrywiol wedi'u cwblhau yn y maes hwn, yn enwedig yn ymwneud â'r effeithiau ar iechyd meddwl sy'n deillio o sancsiynau budd-daliadau a thrwy'r prosesau asesu sy'n cael eu defnyddio i bennu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau anabledd ac analluogrwydd. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r Cytundeb Cydweithio i archwilio'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen i baratoi ar gyfer datganoli gwaith gweinyddu’r maes lles.

Bydd y tîm ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio â chydweithwyr polisi perthnasol i edrych ar yr angen am ymchwil ychwanegol, pennu cyfnod y gwaith ymchwil, a nodi ei gysylltiad â blaenoriaethau ac ymrwymiadau eraill.

**Goblygiadau Ariannol** – Ddim yn hysbys

**<u>Argymhelliad 4</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y strategaeth iechyd meddwl newydd yn sicrhau y bydd pobl â salwch meddwl difrifol a pharhaus yn cael mynediad rheolaidd at archwiliadau iechyd corfforol, a pha gamau a fydd yn cael eu cymryd i leihau effaith ffactorau fel tlodi, anfantais a rhagdybio diagnostig ar y grŵp hwn.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r contract craidd ar gyfer meddygon teulu fel rhan o wasanaethau unedig yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon teulu gofnodi gwybodaeth am bobl sydd â salwch meddwl difrifol a chadw cofnod o bwysedd gwaed uchel a chyflyrau / risgiau iechyd corfforol eraill.

Fel rhan o'r gwaith i gefnogi datblygiad y cynllun a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, rydym eisoes wedi comisiynu gwaith i lywio ein dull o wella iechyd corfforol unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i gynnal adolygiad systematig o'r dull gweithredu presennol ac arferion gorau i gefnogi'r iechyd corfforol gorau posibl mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r strategaeth bresennol, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn strategaeth draws-lywodraethol ac mae'n cael ei chefnogi gan Grŵp Uwch-swyddogion traws-lywodraethol. Mae'r Grŵp yn cynrychioli'r meysydd polisi allweddol sy'n gwarchod iechyd meddwl da, er enghraifft, Trechu Tlodi, a mynd i'r afael â Chyflogaeth, Tai ac Addysg. Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp hwn i lywio'r dull gweithredu traws-lywodraethol yn y cynllun olynol.

Hefyd, byddwn yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid ehangach i gryfhau'r dull presennol o Gynllunio Gofal a Thriniaeth sydd eisoes yn cynnwys ystyried canlyniadau mewn meysydd bywyd allweddol gan gynnwys cyllid, tai, gwaith a theulu.

Un o amcanion y strategaeth a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yw gwella diagnosis ac effeithiau salwch corfforol, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys atal rhagdybio diagnostig.

Bydd y dull o ymdrin â phob un o elfennau'r argymhelliad hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth sy'n olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar ddiwedd 2023.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

**Argymhelliad 5**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn unol ag argymhelliad ein grŵp cynghori, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi map ffordd sy’n nodi camau clir ar lefel genedlaethol a lleol i wella iechyd meddwl ymhlith pobl niwrowahanol. Dylid ei gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2023 a dylai gynnwys camau i symleiddio’r broses i oedolion a phlant gael asesiad/diagnosis ar gyfer cyflyrau niwrowahanol a gwneud y broses honno’n fwy hygyrch.*

**Ymateb: Derbyn**
Cwblhawyd adolygiad gallu a galw o'r holl wasanaethau cyflyrau niwroddatblygiadol ym mis Mawrth 2022. Wrth ymateb mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol raglen wella niwrowahaniaeth a fydd yn cynnwys cyllid ychwanegol gwerth £12 miliwn. Mae'r rhaglen wedi dechrau, ac mae £1.4 miliwn cychwynnol wedi'i ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddiwallu'r angen brys. Mae gan y rhaglen dair ffrwd waith. Y ffrwd gyntaf yw ystyried cymorth a chefnogaeth gynnar, yr ail yw datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol cynaliadwy, a'r drydedd yw sicrhau bod blaenoriaethau trawsbynciol, gan gynnwys data a'r gweithlu, yn cael eu datblygu. Bydd cymorth i bobl niwrowahanol sydd â chyflyrau sy'n cydfodoli, gan gynnwys diwallu anghenion iechyd meddwl, yn cael ei ddatblygu fel maes blaenoriaeth oddi mewn i'r rhaglen.

Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â fframwaith NYTH ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc, a bydd yn mabwysiadu agwedd system gyfan at ddatblygu gwasanaethau. Er mwyn goruchwylio'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Niwrowahaniaeth, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan unigolion sydd â phrofiad bywyd o niwrowahaniaeth.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru i drafod blaenoriaethau'r rhaglen a gofyn am farn rhanddeiliaid. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol a chafodd ei grynhoi mewn adroddiad cryno dwyieithog[2].

**Goblygiadau Ariannol** – Mae £12 miliwn yn ychwanegol wedi ei ddarparu hyd at fis Mawrth 2025 i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyflyrau niwroddatblygiadol.

[2] Rhaglen gwella niwrowahaniaeth: digwyddiadau ymgysylltu Tachwedd 2022 | LLYW.CYMRU

**<u>Argymhelliad 6</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd gwaith i ddatblygu cefnogaeth gynnar drawsbynciol i blant a phobl ifanc a allai fod yn niwrowahanol, a'u teuluoedd, cyn iddynt gael diagnosis ffurfiol, yn mynd rhagddo'n gyflym ac ar frys. Dylai hyn gynnwys nodi pa gamau penodol fydd yn cael eu cymryd a phryd, a manylion pryd a sut y bydd gwerthuso'n cael ei wneud i asesu a yw profiadau a chanlyniadau pobl yn gwella. Dylid ystyried defnyddio dulliau cymorth gan gymheiriaid, cyfeillion fideo a hyrwyddwyr niwrowahanol.*

**Ymateb: Derbyn**
Fel uchod. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i gynnal adolygiad o wasanaethau asesu niwrowahaniaeth presennol a gwneud argymhellion ar welliannau posibl. Hefyd, bydd yr Uned Gyflawni yn datblygu fframwaith sicrwydd i fesur effaith newidiadau mewn gwasanaethau a chymorth wrth iddynt gael eu datblygu.

**Goblygiadau Ariannol – Fel uchod**

**<u>Argymhelliad 7</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu amserlen glir ar gyfer adolygiad brys o'r ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl fyddar ac ymrwymo i roi diweddariad i ni ar yr adolygiad, ac unrhyw gasgliadau neu ganfyddiadau sy'n dod i'r fei, erbyn Gorffennaf 2023. Dylai hefyd roi sicrwydd y bydd yr adolygiad yn ystyried y materion a godwyd gan yr All Wales Deaf Mental Health and Well-Being Group yn ei adroddiad, Deaf People Wales: Hidden Inequality, ac ystyried a oes angen sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol cenedlaethol ar gyfer pobl fyddar yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth iechyd meddwl i bobl fyddar a thrwy wneud hynny yn cymryd i ystyriaeth y materion a godwyd yn yr adroddiad *Pobl Fyddar Cymru: Anghydraddoldeb Cudd*, er y bydd hyn yn rhan o waith a fydd yn ystyried colled synhwyraidd yn fwy cyffredinol. Un o nodau sylfaenol ein gwaith o ddatblygu'r strategaeth sy'n olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl fydd lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau ar gyfer ***pob*** grŵp sy'n wynebu rhwystr i dderbyn cymorth. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni safonau Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth,

ond hefyd iaith a nodweddion gwarchodedig eraill. Y nod fydd dileu'r rhwystrau i gymorth ar gyfer pob carfan, a byddwn yn edrych ar y dystiolaeth ynghylch colled synhwyraidd yn ehangach er mwyn llywio'r cynllun arfaethedig.

Byddwn yn gwneud gwaith cwmpasu cynnar erbyn mis Gorffennaf 2023, ond gan y bydd hyn yn rhan o waith ein strategaeth olynol i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy gydol 2023, a bydd yn rhan o'n strategaeth iechyd meddwl y cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn ei chylch ar ddiwedd y flwyddyn galendr.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

**Argymhelliad 8**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad yn 2018, Siarad fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyn**

Yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022, rydym yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod cymorth yn deg ac yn hygyrch, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safon Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd â cholled synhwyraidd.

Fel rhan o'r gwaith parhaus mewn perthynas â threfniadau i olynu ein Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, byddwn yn ystyried pa gamau eraill sydd eu hangen i gryfhau mynediad at gymorth i'r rhai sydd â cholled golwg neu golled clyw, ac i'r rhai nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Mae adroddiad blynyddol Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) yn nodi mai'r iaith y gofynnwyd am wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar ei chyfer yn fwyaf aml, ac y gofynnwyd am wasanaeth cyfieithu ar ei chyfer yn fwyaf aml ond un yn 2022 oedd Arabeg. Cafodd 99.1% o'r holl geisiadau (ar gyfer pob iaith, nid Arabeg yn unig) eu dyrannu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiad ymchwil yn ddiweddar i ba mor hawdd yw cael gafael ar wasanaethau cyfieithu ar gyfer ieithoedd tramor yng Nghymru a pha mor ddigonol yw'r gwasanaethau hynny, ac rydym yn gobeithio gallu cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn hir.

Bydd yr adroddiad *Pobl Fyddar Cymru* yn hanfodol o ran llywio gwaith parhaus yn y maes hwn.

Ym mis Chwefror 2021, cwblhaodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) archwiliad o bolisïau a darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ymrwymo i'w siarter BSL. Mae swyddogion y BDA a'r Gangen Cydraddoldeb wedi cydweithio ag arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru i nodi'r hyn rydym yn ei wneud ynglŷn â BSL.

Hefyd, rydym yn parhau i sicrhau bod adnoddau iechyd meddwl ar gael mewn sawl iaith er mwyn cynorthwyo mynediad at ofal iechyd. Yn fwy diweddar, rydym wedi cyfieithu adnoddau megis Pecyn Cymorth Sefydlogi'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer pobl sydd wedi wynebu digwyddiadau trawmatig.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo llinell gymorth iechyd meddwl CALL (ac mae wedi cyfieithu gwybodaeth am y llinell gymorth i dros 20 o ieithoedd). Mae CALL yn defnyddio Language Line hefyd - sy'n golygu bod unrhyw un sy'n ffonio'r llinell gymorth yn gallu cael cefnogaeth a chyngor yn eu dewis iaith.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**<u>Argymhelliad 9</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa ddyletswyddau sydd ar fyrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Wrth wneud hynny, dylai roi sicrwydd bod y dyletswyddau sydd yn eu lle yn ddigonol, ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar aelodau o'r teulu neu wirfoddolwyr cymunedol i ddarparu dehongliad neu gyfieithu ac eithrio mewn achosion brys neu argyfwng.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ym mis Chwefror 2021, cwblhaodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) archwiliad o bolisïau a darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ymrwymo i'w siarter BSL. Mae swyddogion y BDA a'r Gangen Cydraddoldeb wedi cydweithio ag arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru i nodi'r hyn rydym yn ei wneud ynglŷn â BSL. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth dehongli a chyfieithu BSL a'r heriau sy'n deillio o brinder y gweithwyr proffesiynol cofrestredig hyn yng Nghymru.

Cyflwynwyd canlyniadau cychwynnol Adroddiad Archwilio BSL i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2021. Roedd yr Adroddiad drafft yn crynhoi asesiad o bolisïau a gwasanaethau Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys argymhellion i lywio cynllun gweithredu a chynnig ar gyfer ymgysylltu parhaus â chymunedau pobl fyddar. Mae swyddogion wedi adolygu cynnwys Adroddiad Archwilio'r BDA ac wedi cwblhau'r adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi gan y BDA yn fuan. Mae swyddogion wedi cyfarfod â'r BDA ac yn aros am gadarnhad o'r dyddiad cyhoeddi gan y BDA.

Rhagwelir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad yn croesawu'r adroddiad ei hun a'r argymhellion. Bydd cyfieithiad BSL o'r datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod bod angen dull croestoriadol o ymateb i argymhellion yr Archwiliad. Mae angen cynllun hirdymor ar gyfer newid ac ymrwymiad a ffocws parhaus er mwyn rhoi camau gweithredu Archwiliad y BDA ar waith. Mae modd bwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn yn y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, ac mae modd gwneud rhywfaint o'r gwaith nawr. Bydd asesiad yn cael ei gynnal i ddatblygu cynllun gwaith i fwrw ymlaen â meysydd y gellir eu datblygu y tu allan i gylch gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl.

Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) yn darparu mynediad at amrywiaeth eang o gyfieithwyr ar y pryd cofrestredig sy'n gweithio mewn tua 120 o ieithoedd gan gynnwys BSL. Gall sefydliadau partner fanteisio ar wasanaethau ar gais GCC drwy eu cytundeb partner. Mae'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru bellach yn bartneriaid â GCC. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw gwneud ceisiadau i GCC a rhoi gwybod i'r claf.

Mae'r ‘Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy’ yn pennu'r cyfeiriad i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl â cholled synhwyraidd yn cael eu diwallu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau gofal iechyd. Disgwylir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth roi trefniadau gweithredu ar waith i gyflawni’r safonau ac i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn hawdd i’w defnyddio ac ar gael, gan gynnwys i'r gymuned fyddar, drwy'r cyfrwng cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolyn, megis BSL.

Yn 2023, bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd ledled Cymru i gynnal adolygiad o'r holl ddulliau adrodd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys y dulliau ar gyfer grwpiau agored i niwed. Hefyd, byddant yn datblygu argymhellion ar gyfer gwella prosesau cydweithio a darparu mwy o sicrwydd bod dyletswyddau Cydraddoldeb ar waith ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd 2018 ar Iechyd a Llesiant Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer byrddau iechyd o ran darparu cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Yn 2021, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y byrddau iechyd i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghanllawiau 2018 ar iechyd a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn enwedig mewn perthynas â darparu mynediad at gyfieithwyr a sicrhau nad yw iaith yn rhwystr rhag cael mynediad at wasanaethau.

**Goblygiadau Ariannol** – Byddai unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r argymhellion i gefnogi dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Argymhelliad 10**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Rydym yn cymeradwyo ac yn ailadrodd argymhelliad 1 a wnaed gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ei adroddiad ym mis Hydref 2022, Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu a chynnal cyfeirlyfr o gyfieithwyr cydnabyddedig.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn deall y rhwystrau sy'n wynebu cleifion wrth geisio cael mynediad at wasanaethau heb ddefnyddio cyfieithydd, sy'n eu gwneud yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn adroddiad ar argaeledd a digonolrwydd gwasanaethau cyfieithu ieithoedd tramor fel rhan o'n Prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru. Byddwn yn edrych ar argymhellion a chanfyddiadau'r adroddiad ochr yn ochr â'r argymhelliad hwn a gwaith ein Fframwaith Integreiddio Mudwyr. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ystyried sut y gellir dileu rhwystrau i fynediad, gan weithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Hefyd, byddwn yn archwilio dulliau newydd o weithio i sicrhau mynediad, y gellid eu cynnwys yn ein gwaith cyfathrebu ar gyfer Prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

**Argymhelliad 11**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Erbyn Gorffennaf 2023 dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r deilliannau allweddol a mesurau ansoddol a meintiol ar gyfer effaith y fframwaith ystyriol o drawma i Gymru, a rhoi fframwaith gwerthuso cadarn ar waith. Os na all Llywodraeth Cymru ymrwymo yn ei hymateb i'n hadroddiad i gwblhau gwaith o fewn yr amserlen hon, dylai egluro pam nad yw hyn yn bosibl a rhoi gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r mesurau a'r fframwaith gwerthuso.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd y Fframwaith Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma newydd yn rhan annatod o ymdrechion Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn wlad sy'n ystyriol o drawma. Bydd y fframwaith yn helpu i lywio'r polisi presennol a'r polisi newydd, gan gynnwys y strategaeth iechyd meddwl newydd a'r Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Bydd hefyd yn cyfrannu at nodau ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella canlyniadau bywyd unigolion a gwneud Cymru'n wlad fwy ffyniannus a chyfartal.

Cafodd y fframwaith ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid o nifer o wahanol sectorau, o dan arweiniad Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru. Chwaraeodd Llywodraeth Cymru rôl hanfodol drwy hwyluso a chefnogi'r gwaith hwn, a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ar y cam nesaf – sef rhoi'r fframwaith ar waith yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd y cyfarfod rhanddeiliaid cyntaf ynghylch prosesau gweithredu a gwerthuso'r fframwaith ar 23 Ionawr 2023. Disgwylir y caiff cynllun gweithredu, gan gynnwys y cyflawniadau allweddol, mesurau canlyniadau a phrosesau gwerthuso ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer isafswm o £300,000, £350,000 a £400,000 ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25, yn y drefn hon, er mwyn helpu i gyflwyno Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi £1.2 miliwn y flwyddyn i Straen Trawmatig Cymru, sydd â'r nod o wella iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru sy'n byw gydag anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) neu anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth (CPTSD), neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn.

**Argymhelliad 12**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth briodol a chefnogol am ymlyniad ac iechyd y berthynas rhwng rhiant a phlentyn yn cael ei darparu i rieni beichiog a rhieni newydd, er enghraifft mewn llenyddiaeth a thrwy ddosbarthiadau cynenedigol. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae gwybodaeth i gefnogi rhianta sensitif ac ymatebol yn dechrau mewn dosbarthiadau cynenedigol ac yn parhau drwy'r beichiogrwydd ar gyfer mamau a'u partneriaid. Mae'r gefnogaeth a'r addysg hon yn parhau drwy amrywiaeth o ffyrdd, yn sesiynau wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig ac yn electronig, mewn ieithoedd gwahanol trwy gydol y blynyddoedd cynnar, ar ôl i fydwragedd drosglwyddo cyfrifoldeb i wasanaethau ymwelwyr iechyd. Mae gwaith y prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf wedi'i grynhoi mewn negeseuon allweddol sy'n nodi y dylai rhieni hyrwyddo rhianta ag ymlyniad a rhianta ymatebol, gan ganolbwyntio'n benodol ar lesiant emosiynol plentyn ac ymlyniad diogel drwy wybodaeth i rieni megis Naw Mis a Mwy. Byddwn yn ystyried pa gamau eraill y gallwn eu cymryd er mwyn datblygu gwaith ar y berthynas rhwng rhiant a baban drwy ddysgu a gynllunnir, gan gynnwys meysydd

dysgu posibl sy'n deillio o'r modelau cyflawni a'r dulliau sy'n cael eu treialu drwy brosiectau braenaru'r blynyddoedd cynnar, lle mae pwyslais penodol ar y berthynas rhwng rhiant a baban ac ymyriadau.

Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r strategaeth olynol i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn gallu cryfhau cefnogaeth ar gyfer gwaith ar y berthynas rhwng rhiant a baban yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Ddim yn hysbys eto

**Argymhelliad 13**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau cymunedol i ddefnyddio canlyniadau ei hymarfer mapio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol diweddar i gyd-gynhyrchu cyfeirlyfr ar-lein o wasanaethau cymunedol a digidol sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ledled Cymru. Dylai'r cyfeiriadur fod yn hygyrch i'r cyhoedd, a dylai gynnwys gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael a sut i'w gael, yn cynnwys a oes angen atgyfeiriad.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar wefan 111 ar gyfer cymorth cenedlaethol (GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y: Iechyd Meddwl a Lles[3]) a thrwy DEWIS ar gyfer cymorth lleol/cymunedol. Mae gan y bobl sy'n ateb galwadau i linell gymorth CALL fynediad at gyfeiriadur cynhwysfawr o wasanaethau lleol (yn ôl cod post) i gyfeirio pobl at gymorth lleol. Hefyd, rydym yn darparu gwybodaeth sydd wedi'i theilwra'n arbennig i garfanau penodol, er enghraifft y Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gynhelir ar HWB. Yn lle datblygu cyfeiriadur ar-lein newydd, ein nod yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gael gafael ar adnoddau.

Byddwn yn parhau i wneud hynny drwy'r ymgyrch Helpwch Ni i'ch Helpu Chi, a thrwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus eraill, er enghraifft pan fyddwn yn lansio 111 pwyswch 2 am gymorth iechyd meddwl brys yn genedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

[3] Iechyd Meddwl a Lles (111.wales.nhs.uk)

**Argymhelliad 14**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Er mwyn cyd-fynd â'r broses o gyhoeddi'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol a'i weithredu'n barhaus, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol a'r fframwaith newydd ymhlith gweithwyr iechyd, gwasanaethau a grwpiau a sefydliadau cymunedol y gellid presgripsiynu pobl iddynt, a'r cyhoedd.*

**Ymateb: Derbyn**

Un thema allweddol yn ein hymgynghoriad diweddar ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol oedd y gydnabyddiaeth ei bod yn ymddangos bod dryswch sylweddol a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o beth yn union y mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu ei gynnig.

Yn ogystal, fe wnaeth yr ymgynghoriad gydnabod bod angen gwella ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael, a hygyrchedd y ddarpariaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn gallu cysylltu pobl â chymorth yn y gymuned.

Mae dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r angen am ymgyrch i ddatblygu dealltwriaeth o waith presgripsiynu cymdeithasol, a'i fanteision, ac i godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith cenedlaethol. Wrth i ni fwrw ymlaen â datblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, bydd rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth yn cael ei chyflwyno.

**Goblygiadau Ariannol** – Ddim yn hysbys eto

**Argymhelliad 15**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai fframwaith presgripsiynu cymdeithasol Llywodraeth Cymru gynnwys mesurau lle gellir asesu effeithiau a chanlyniadau iechyd a chymdeithasol cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi data fel rhan o'r broses barhaus o werthuso'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol er mwyn ein galluogi ni a rhanddeiliaid i fonitro effaith presgripsiynu cymdeithasol a'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y fframwaith cenedlaethol yn dangos gwerth presgripsiynu cymdeithasol ac yn monitro ei effaith. I wneud hyn, mae angen cymysgedd o fesurau ansoddol a meintiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y gymuned, a gwasanaethau iechyd. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r ffordd orau o gofnodi'r data hwn a gwerthuso effaith a chanlyniadau iechyd a chymdeithasol presgripsiynu cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ddim yn hysbys eto

**<u>Argymhelliad 16</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu strwythur mwy proffesiynol i'r gweithlu presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys sut y bydd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth mewn tâl, telerau ac amodau, ac yn gwella cynaliadwyedd cyllido ar gyfer rolau o'r fath. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Gwrthod**
Mae ein strategaeth 'Cysylltu Cymunedau' eisoes yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith sgiliau a chymhwysedd ar gyfer gweithwyr presgripsiynu cymdeithasol a fydd yn rhan annatod o'n fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i arwain ar ddatblygu fframwaith sgiliau a chymwyseddau sy'n cysylltu tystiolaeth ag ymarfer. Bydd y fframwaith sgiliau a chymwyseddau yn helpu'r bobl hynny sy'n datblygu gwasanaethau i wella eu dealltwriaeth o rôl yr ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol. Mae AaGIC a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, eisoes wedi datblygu fframwaith drafft. Cynhelir ymgynghoriad ar y fframwaith yn fuan.

Bydd y fframwaith sgiliau a chymhwysedd hwn yn amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r rôl presgripsiynu cymdeithasol yn llwyddiannus, a bydd yn helpu i ddatblygu strwythur mwy proffesiynol ar gyfer y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol.

Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod trefniadaeth y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol, gyda llawer o weithwyr wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, mae'r broses o drafod tâl, telerau ac amodau penodol y tu allan i gylch gwaith Llywodraeth Cymru ac yn gyfrifoldeb sefydliadau sy'n cyflogi

pobl.  Am y rheswm hwn, nid oes modd inni dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 17

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut, gan weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, y bydd yn monitro effaith y camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl sydd â'r nod o wella llesiant staff. Dylai ymrwymo hefyd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n nodi a yw'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael yr effaith fwriadedig, ac os na, beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol. Dylai'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi dim hwyrach na Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd cynnydd ar gyflawni'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl, ac effaith y camau hyn, yn cael eu monitro drwy fwrdd gweithredu wedi'i sefydlu gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cynnwys pobl â phrofiad bywyd, Colegau Brenhinol, y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni a Goruchwylio Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a byrddau cyhoeddus AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyhoedd i ddarparu gwybodaeth am gynnydd.

**Goblygiadau Ariannol** - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

## Argymhelliad 18

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, dylai gadarnhau pa rai o'r camau sydd yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl y dyrannwyd cyllid llawn iddynt, pa rai y dyrannwyd cyllid rhannol iddynt, a pha rai sydd heb gael cyllid wedi'i ddyrannu iddynt o gwbl. Dylai hefyd roi manylion pa gamau sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu sydd heb eu hariannu a fydd yn cael blaenoriaeth pe bai cyllid pellach ar gael.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi dweud y bydd cefnogi'r gwaith o roi Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl ar waith yn flaenoriaeth yn 2023-24. Rhwng y cyllid a ddarperir ar gyfer Cynllun Comisiynu a Hyfforddi Addysg GIG Cymru (2023-24) a chyllid ychwanegol a ddarperir o gyllideb y rhaglen iechyd meddwl, bydd y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl yn cael ei ariannu'n llawn yn 2023-24.

**Goblygiadau Ariannol** - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

**<u>Argymhelliad 19</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phobl niwrowahanol i gydgynhyrchu ymgyrchoedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth o niwroamrywiaeth mewn ysgolion ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dylai ffocws yr hyfforddiant fod ar ddeall bywydau pobl niwrowahanol, sut i'w cefnogi a'u helpu, a datblygu agweddau a diwylliant cadarnhaol, adeiladol a chymwynasgar, ac nid ar gyflyrau penodol yn unig. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion ac ar draws sectorau eraill, gan weithio mewn partneriaeth â phobl niwrowahanol a rhieni a gofalwyr. Mae'r wefan autismwales.org/cy yn darparu manylion rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr ac adnoddau codi ymwybyddiaeth mewn addysg ar gyfer cyflogwyr a gwasanaethau cymunedol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**<u>Argymhelliad 20</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolwg o'r gweithlu sydd i'w gynnal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o gynllun y gweithlu iechyd meddwl yn cael ei gynnal ar fyrder, a dim hwyrach na mis Gorffennaf 2023. Dylai Llywodraeth Cymru*

*weithio gyda grwpiau a chymunedau y nodwyd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu ar ôl dadansoddi'r data amrywiaeth a gasglwyd drwy'r arolwg, a chyda phobl niwrowahanol, i lunio a chyflwyno rhaglen fentora a chymorth i'w helpu i ymuno â'r gweithlu iechyd meddwl. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd arolygon o'r gweithlu yn cael eu cynnal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol cyn mis Gorffennaf 2023.Mae cynhwysiant wedi'i nodi fel un o'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r cynllun, gyda'r nod o "greu diwylliant o wir gynhwysiant, uniondeb a thegwch ar draws y gweithlu Iechyd Meddwl".Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleiafrifoedd Ethnig yn y lle cyntaf i ddatblygu dull sy'n ceisio cynyddu prosesau recriwtio a chadw ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu iechyd meddwl.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

**Argymhelliad 21**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod ei gweision sifil yn cynnwys, ym mhob cyflwyniad a wneir i Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n gofyn am benderfyniad ar gynigion polisi, deddfwriaethol, gwariant neu drethu, asesiad o'r modd y bydd y camau a argymhellir yn cyfrannu at wella iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Gweinidogion Cymru yn gorfod gweithredu yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau datblygiad cynaliadwy, gan gyfrannu at y saith nod llesiant wrth wneud hynny. Yn y nodau hyn, mae 'Cymru Iachach' yn cael ei disgrifio fel "Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol". Wrth gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwreiddio'r Ddeddf yn y modd y mae'n datblygu polisi a chyngor i Weinidogion. Mae hyn yn rhan o ddull mwy integredig o asesu effaith polisi sydd eisoes yn cynnwys ystyried iechyd meddwl a llesiant drwy gynnwys ein harferion asesu'r effaith ar iechyd sefydledig.

Ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i restr o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) gynnal asesiad effaith ar iechyd (sy'n cynnwys ystyried iechyd meddwl a chorfforol) mewn amgylchiadau sydd i'w pennu yn y rheoliadau. Cafodd gwaith i ddatblygu'r rheoliadau ei atal i ddechrau er mwyn canolbwyntio adnoddau ar Ymadael â'r UE ac wedyn i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, ailgychwynnodd y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau yn 2022, ac mewn ymateb i lythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi ymgynghoriad ar y rheoliadau (yn unol â gofyniad Deddf 2017) ddiwedd y Gwanwyn/dechrau Haf 2023. O safbwynt datblygu'r Rheoliadau, byddwn yn ystyried canfyddiadau adroddiad y pwyllgor a'r argymhelliad hwn wrth baratoi cynigion polisi ar gyfer yr ymgynghoriad. O safbwynt gweithredu'r Rheoliadau oddi mewn i Lywodraeth Cymru, byddwn yn diweddaru ein dull asesu effaith yn unol â hynny unwaith y bydd y Rheoliadau wedi'u cytuno.

Yn ogystal ag ystyried y mecanweithiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried effaith penderfyniad ar iechyd, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth a gallu'r rhai sy'n llunio polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau oddi mewn i Lywodraeth Cymru fel bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r mathau o ymddygiad i gynllunio a chyflwyno polisi yn effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**<u>Argymhelliad 22</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau blynyddol i ni am gynnydd a wnaed o ran gweithredu’r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid darparu’r diweddariad blynyddol cyntaf ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ystyried y mater hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiweddaru'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn fel y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**<u>Argymhelliad 23</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gomisiynu a chyhoeddi gwerthusiadau interim a therfynol annibynnol o'i strategaeth iechyd meddwl newydd. Dylai'r gwerthusiadau interim gynnwys asesiad o effaith y strategaeth hyd yma ar iechyd meddwl a llesiant poblogaeth Cymru, y canlyniadau y mae wedi'u cyflawni, ac unrhyw bwyntiau dysgu neu argymhellion ar gyfer newid. Ochr yn ochr â phob adroddiad gwerthuso interim, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion pa gamau y bydd yn eu cymryd mewn ymateb i unrhyw bwyntiau dysgu neu argymhellion ar gyfer newid.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd cynlluniau ar gyfer gwerthuso parhaus yn rhan hanfodol o'r Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru. Bydd angen ystyried pwyntiau dysgu a / neu argymhellion ar gyfer newid yn benodol fel rhan o unrhyw werthusiadau arfaethedig, ochr yn ochr â ffocws ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau ac amcanion arfaethedig y strategaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

**<u>Argymhelliad 24</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd y data i'w gasglu a'i gyhoeddi fel rhan o set ddata graidd iechyd meddwl yn ein galluogi ni a rhanddeiliaid i weld ac olrhain cynnydd dros amser mewn anghydraddoldebau iechyd meddwl yn ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau i wahanol grwpiau a chymunedau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ba ddata fydd yn cael ei gynnwys, pa mor aml y bydd data'n cael ei gyhoeddi, pa ddadansoddiad fydd yn cael ei wneud, a chadarnhad y bydd y data'n cael ei ddadgyfuno ar sail nodweddion amrywiaeth.*

**Ymateb: Derbyn**

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yw sicrhau bod data iechyd ac iechyd meddwl yn ymwneud â hil, ethnigrwydd ac anfantais croestoriadol yn cael ei gasglu mewn ffordd weithredol, ei ddeall a'i ddefnyddio i sbarduno a llywio gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau a sicrhau bod canlyniadau teg yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau.

Rydym eisoes yn cyhoeddi ystod o ddata ar weithgarwch, ac mae rhywfaint ohono yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd, fel rhan o Raglen Feincnodi'r GIG. Mae'r wybodaeth feincnodi ddiweddaraf ar gyfer Cymru ar gael ar-lein (gig.cymru).[4]

O safbwynt y set ddata graidd, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth lefel cleifion (er enghraifft, rhywedd ac ethnigrwydd). Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu i ddatblygu'r gwaith hwn, ac ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar weithio gyda byrddau iechyd i gytuno ar y data gweithgarwch craidd a fydd yn cael ei adrodd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r data hwn a byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor maes o law ar y data sydd i'w gyhoeddi a pha mor aml y bydd yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r mesurau gweithgarwch yn un o bedair elfen a fydd yn ffurfio'r set ddata graidd. Y mesurau eraill yw:

- *Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Glaf (PROMS).*
- *Mesurau Profiadau a Adroddir gan Glaf (PREMS).*
- *Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Glinigydd (CROMS).*

Rydym wedi sefydlu Grŵp Goruchwylio ac wedi diweddaru'r Bwrdd drwy ychwanegu grŵp technegol. Mae gan y bwrdd ystod o aelodau rhanddeiliaid, ac yn ogystal â darparu prif brosesau goruchwylio a llywodraethu'r rhaglen hon, bydd y "Bwrdd" yn ystyried canfyddiadau allweddol yr Ymchwil Academaidd, gan edrych ar yr hyn sy'n bwysig i bobl yng Nghymru.

**Goblygiadau** Ariannol - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

**<u>Argymhelliad 25</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Ar ôl cwblhau'r ymchwil y comisiynwyd Prifysgol De Cymru i'w chynnal ar fesur canlyniadau clinigol a chymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen ar gyfer datblygu a gweithredu mesurau llesiant i lywio'r gwaith o fonitro a gwerthuso effaith y strategaeth iechyd meddwl newydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae trefniadau'r Bwrdd Canlyniadau a Mesurau Iechyd Meddwl y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb i argymhelliad 24 yn ystyried canlyniad yr ymchwil fel rhan o'r gwaith o

[4] Digwyddiadau - Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (gig.cymru)

ddatblygu'r mesurau canlyniadau yn y set ddata graidd. Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlenni, yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar y sgôr llesiant meddwl cymedr i bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru gan ddefnyddio Cyfradd Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) fel rhan o'r broses o adroddiad ar Lesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol[5].

Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymgynghori ar Dangosydd 29, 'Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl', ac wedi gosod cerrig milltir ar ei gyfer. Mae'r mesur hwn yn cael ei gasglu a'i adrodd fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i Oedolion, a byddwn yn defnyddio'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc. Dyma un o'r dangosyddion a fydd yn sbarduno gwaith yn y dyfodol i hyrwyddo llesiant meddwl da ledled y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig.

Fel rhan o'r trefniadau i ddatblygu'r strategaeth a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, mae gennym adnodd penodol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau allweddol i benderfynu cynnydd yn erbyn yr amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Bydd y mesurau arfaethedig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori y disgwylir iddi fod ar gael erbyn diwedd 2023.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 26**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’r comisiynwyr heddlu a throsedd a’r heddluoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd i wella mynediad ar gyfer swyddogion heddlu at hyfforddiant parhaus mewn ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, atal hunanladdiad, ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth o anableddau dysgu, a chymhwysedd diwylliannol. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, ac o'r herwydd mae hyfforddi staff yr heddlu yn gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio ein cysylltiadau

[5] Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol Cymru (llyw.cymru)

partneriaeth i gefnogi canlyniadau cyfiawnder troseddol effeithiol, yn enwedig pan fo plismona yn rhyngwynebu â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Byddwn yn trefnu trafodaeth â Phlismona yng Nghymru ar:

- Yr hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud â'r pynciau hyn a sut mae'n cael ei ddefnyddio.
- Sut y gellir cynyddu hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant presennol.
- Os oes cyfleoedd posibl ar gael ar gyfer cysylltiadau newydd neu waith pellach.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gydag Uned Cyswllt yr Heddlu ac arweinwyr polisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

O safbwynt niwroamrywiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n darparu cyngor arbenigol a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth. Mae'r tîm wedi gweithio gyda heddlu De Cymru a heddlu Gwent ar faterion niwroamrywiol. Hefyd, rydym yn cyflwyno rhaglen wella niwrowahaniaeth sy'n cynnwys ystyried anghenion hyfforddi'r gweithlu. Mae cynrychiolydd cyfiawnder troseddol yn aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Niwrowahaniaeth, ac mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r meysydd sydd heb eu datganoli sy'n rhan o'u strategaeth niwroamrywiaeth.

Yn ogystal, fel rhan o Strategaeth Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru, mae'r tîm wedi helpu i ddatblygu'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu a dechrau ei gyflwyno i weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r tîm yn gweithio gyda Gwelliant Cymru i edrych ar sut mae modd ymestyn y Fframwaith i sefydliadau sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr heddlu o bosibl.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

**<u>Argymhelliad 27</u>**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Bil Iechyd Meddwl drafft. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a yw'n cefnogi bwriad Llywodraeth y DU i ddeddfu ym maes iechyd meddwl, sy'n faes datganoledig, manylion y dadansoddiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn llywio ei barn ar y mater hwn, a gwybodaeth am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y gwahanol gyd-destunau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a chynllunio ar gyfer ei gweithredu.*

**Ymateb: Derbyn**

Yn unol â'r ymrwymiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig. Pan gafodd ei sefydlu, diben y grŵp gorchwyl a gorffen oedd cytuno ar gamau diriaethol sy'n gallu gwella cymorth ar gyfer iechyd meddwl a mynediad at wasanaethau ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ar gyfer pob grŵp oedran. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am gyfnod o 12 mis yn wreiddiol, ond bydd yn parhau am ddwy flynedd arall - gan chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywio datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru. Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod deddfwriaeth iechyd meddwl newydd i Gymru yn adlewyrchu anghenion cymunedau ethnig lleiafrifol. Hefyd, bydd yn un o'r rhanddeiliaid allweddol mewn trafodaethau a gwaith parhaus i gyflwyno'r diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru, a datblygu'r Cod Ymarfer ategol i Gymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl i geisio cyflwyno argymhellion Adolygiad Wessely, fe aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i gynnal cyfres o drafodaethau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig, i benderfynu pa un o'r cynigion fyddai'n fuddiol i Gymru. Ar ôl y trafodaethau hynny, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Llywodraeth y DU i amlinellu ein safbwynt ynglŷn â pha un o'r cynigion yr hoffem ei ymestyn i Gymru a'i gynnwys mewn Bil Iechyd Meddwl drafft. Yn unol â Chonfensiwn Sewel, mae'n debygol y bydd angen pasio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd o hyd unwaith y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn unol ag adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd. Bydd argymhelliad terfynol Llywodraeth Cymru i'r Senedd ynglŷn ag a ddylid pasio cynnig o'r fath yn dibynnu ar a ydym yn fodlon â'r darpariaethau terfynol yn y Bil.

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft wedi bod yn destun craffu cyn deddfu yn Senedd y DU, a chyhoeddodd y pwyllgor craffu perthnasol ei adroddiad ar 19 Ionawr 2023. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw yn debygol o arwain at newidiadau i'r Bil arfaethedig o'i gymharu â'r drafft cyntaf. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i ystyried i ba raddau y dylid cynnwys Cymru mewn unrhyw ddarpariaethau newydd neu wahanol iawn sy'n dod i'r amlwg wrth i'r Bil gael ei ddatblygu yn sgil adroddiad y pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

**Lynne Neagle AS**

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**